**Y Grŵp Gwneud Penderfyniadau ar Gynllunio Morol**

**6 Chwefror 2019**

**Yn Bresennol**

Phil Coates, Pat Cowdy a Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru), Nathan Slater (Cyngor Bro Morgannwg), Lisa Phillips (CNC), Judith Oakley (Cyngor Abertawe), Nick Barcock (Dŵr Cymru), Martin Thomas (THLS), Tony Thickett (Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio), John Williams (Cyngor Ynys Môn), Greg Tomlinson (Ystad y Goron), Mark Simmonds (Porthladdoedd Prydain), Lindsay Christian (Cyngor Casnewydd), Alan Groves (Llywodraeth Cymru − Cynllunio), Marget Wyatt (Llywodraeth Cymru − Cynllunio), Rachel Mulholland (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), Sarah Jenkins (Cyngor Abertawe), Neville Rookes (CLlLC), Simon Hampshire a Rory Shepherdson (Swyddfa Hydrograffig y DU), Elizabeth West (Awdurdod Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth Dyfnaint ac Aber Afon Hafren), Laura Nokes (Y Weinyddiaeth Amddiffyn), Inger Söderström (OPRED), Sarah Canning a Jillian Whyte (Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Chris McMullon (Natural England), Deanna Groom (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru), Debbie Nicholas (CNC).

1. Amlinellwyd hynt y gwaith ar Gynllun Morol drafft Cenedlaethol Cymru ers y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref. Y nod yw mabwysiadu'r cynllun yn ystod yr haf. Bwriedir i Ganllawiau Gweithredu (CG) fod ar gael ar yr un pryd â'r Cynllun. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r grŵp gyflwyno sylwadau am y drafft cychwynnol a bwriedir gofyn iddynt hefyd roi eu sylwadau ar fersiwn fwy terfynol o'r drafft yn y dyfodol.

2. Roedd Llywodraeth Cymru yn dal i edrych ar bwy oedd yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol a pha benderfyniadau y maent yn eu gwneud yng nghyd-destun y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r cynllun morol o dan adran 58. Dosbarthwyd adroddiad gan ymgynghorydd, *“External Decision Making and Implementation Mapping of Marine Plans”*, yn ystod y cyfarfod i lywio'r drafodaeth. Yn ogystal â'r fforwm hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn barod hefyd i drafod yn unigol gyda sefydliadau neu grwpiau unigol.

3. Cafodd cynnwys y CG a'r meysydd allweddol eu cyflwyno i'r grŵp. Byddai'r CG cychwynnol ar gael unwaith y byddai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar ei wedd derfynol ond cydnabuwyd y byddai'n esblygu yng ngoleuni profiad, ac y byddai fersiynau newydd dilynol yn cael eu creu a'r rheini, o bosibl, yn cael eu hategu gan ganllawiau ychwanegol (e.e. llythyrau cynllunio a Hysbysiadau Cynllunio Morol yn ymwneud â phynciau penodol).

4. Byddai'r cynllun yn dod yn weithredol unwaith y byddai wedi cael ei fabwysiadu (yn yr un modd â dogfennau cynllunio eraill), a byddai angen gwneud unrhyw benderfyniadau yn unol â'r cynllun ar ôl iddo gael ei fabwysiadu.

5. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn croesawu'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r CG ers y fersiwn a gyflwynwyd ar yr un pryd â'r dogfennau ymgynghori ar y fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

6. Trafodwyd pa gyrff fyddai'n gwneud penderfyniadau a pha rai y byddai angen ymgynghori â hwy. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai'r un cyrff ag ar hyn o bryd fyddai'r rheini oherwydd eu bod, yn aml, yn cael eu pennu drwy statud ac y bydd eu dyletswyddau presennol, nad ydynt yn cael eu newid gan gynllunio morol, yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y Cynllun Morol yn ystyriaeth ychwanegol.

7. Gorau po fwyaf o ran a roddir i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau wrth inni fynd ati i gynllunio'r Cynllun Morol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob awdurdod cyhoeddus perthnasol i nodi ei rolau a'i gyfrifoldebau a sut orau i'w cyflawni. Bydd fersiwn ddrafft y Cynllun Morol, y CG drafft ac unrhyw faterion a fydd yn codi o'r astudiaethau achos yn llywio'r trafodaethau hynny.

8. Cafodd y cyfarfod ei rannu wedyn yn dri gweithdy o dan arweiniad Mott Macdonald i edrych ar yr astudiaethau achos gwahanol. Bydd yr astudiaethau achos hyn yn enghreifftiau ymarferol o beth fyddai rhoi'r Cynllun Morol ar waith yn ei olygu i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ac i ddatblygwyr.

Penderfynwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Gorffennaf ond pe byddai unrhyw aelodau o'r Grŵp yn teimlo y byddai'n fuddiol iddo gyfarfod eto cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu, byddai modd trefnu cyfarfod arall cyn mis Gorffennaf.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru